



Ein Cyf / Our ref: KS/322/20

Aelodau Senedd Cymru

24 Medi 2020

Annwyl Aelod

Adolygiad o Ddiogelwch a Therfynau Cyflymder

Yn 2019/20, gwnaethom ni adolygu'r terfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol â'r meini prawf yn Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru ar gyfer pennu terfynau cyflymder, megis nifer gwrthdrawiadau, ffurf a diben y ffordd a defnydd gan ddefnyddwyr ffyrdd bregus (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/gosod-terfynau-cyflymder-lleol-yng-nghymru.pdf>). Ystyriwyd pob cwyn a sylw a oedd wedi dod i law Llywodraeth Cymru gan y cyhoedd ers 2016 yn ogystal â'r data cynyddol am wrthdrawiadau a chyflymder, er mwyn nodi'r safleoedd yr oedd angen adolygiad manylach ohonynt. O ganlyniad, cafodd 413 o ddarnau o gefnffyrdd eu hasesu'n fanwl a chafodd yr holl dystiolaeth a sylwadau gan randdeiliaid (gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, Asiantwyr Cefnffyrdd a Sustrans) eu hystyried ynghyd â gwaith oedd eisoes yn yr arfaeth, i asesu'r angen am ragor o fesurau diogelwch.

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod gwaith yn cael ei wneud ar 114 o safleoedd ledled Cymru, ac maen nhw wedi'u hychwanegu at raglen 5 mlynedd sy'n cynnwys prosiectau tebyg o nodwyd mewn adolygiadau tebyg o derfynau cyflymder yn y gorffennol. Cyhoeddwyd yr wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://diogelwchcefnffyrdd.mapiau.llyw.cymru/>. Bu'n rhaid gohirio cyhoeddi'r wybodaeth oherwydd y Coronofeirws ac rwy'n ymddiheuro am unrhyw ofidiau y gallai'r oedi hwnnw fod wedi'u hachosi.

Byddwn yn defnyddio'r profiadau a gawsom wrth gynnal yr adolygiad hwn pan fyddwn yn diweddarau Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru i sicrhau bod adolygiadau yn y dyfodol yn gwneud y gorau o gyfleoedd i gynyddu Teithiau Llesol.

Yn gywir,

Ken Skates AS/MS
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.